

# Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol Cylch gorchwyl

## **1. Teitl**

Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru

## **2. Cyd-destun a Phwrpas**

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2018 cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fwriad i “gynnal Adolygiad Cyflym o’n polisïau yng nghyswllt rhyw a chydaddoldeb a rhoi hwb newydd i’n gwaith”. Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan Arweinydd y Tŷ a’r Gweinidog Cydraddoldeb, ac yn cael ei gefnogi gan yr elusen Chwarae Teg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sefydlu Cymru fel arweinydd y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Rydym wedi ymrwmo i greu cymdeithas lle mae merched a bechgyn, menywod a dynion yn cael eu trin yn gyfartal, yn cael yr un cyfleoedd ac yn cael cyfle i fyw eu bywydau i’w llawn botensial.

Mae Cymru eisoes wedi dangos y gall fod yn arweinydd y byd wrth ystyried cydraddoldeb. Roedd llawer o’r rhai a arweiniodd yr ymgyrchoedd i gyflwyno datganoli i Gymru hefyd yn ei weld fel cyfle i gyflwyno cymdeithas decach i Gymru.

Chwaraeodd aelodau o’r mudiad menywod yng Nghymru rôl arwyddocaol yn yr ymgyrchoedd o blaid datganoli’r 1990au. Fe wnaethant lwyddo i lobïo am ddyletswydd cydraddoldeb statudol unigryw i’w chynnwys yn y Ddeddf a sefydlodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn fwy diweddar, fe wnaeth Cymru arwain y ffordd unwaith eto drwy gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Yn fwyaf diweddar, fe wnaethom lansio’r ymgyrch Dyma fi i fynd i’r afael â stereoteipiau rhyw ac atal cam-drin.

Felly, er bod llawer wedi ei gyflawni, rydym yn derbyn, heb ymrwymiad ac ymdrech gyson, ni fydd ein nod o sicrhau bod Cymru yn arweinydd byd-eang o ran cydraddoldeb rhywiol yn cael ei gyflawni.

Er mwyn cyflawni ein nod, rydym yn nodi ein bwriad i roi ystyriaethau ynghylch rhywedd ar flaen y gad ein holl benderfyniadau, ein ffyrdd o weithio a’n hymddygiad. Bydd angen ystyried pob un o’r materion a godir o safbwynt croestoriadol a chynhwysol. Mae hyn yn golygu sicrhau mynediad cyfartal i newid ar gyfer menywod o bob cefndir ac ar gyfer menywod sy’n wynebu sawl math o wahaniaethu, gan gynnwys menywod anabl, menywod o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, menywod sy’n ffoaduriaid a menywod sy’n ceisio lloches, menywod lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol (LBT), menywod hŷn, a menywod o ardaloedd difreintiedig a gwledig.

Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau byddwn yn adolygu’r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud yn dda, yn nodi’r hyn y gallwn ei wella, ac yn edrych ar enghreifftiau gan Lywodraethau ledled y byd i ddysgu o’u modelau a’u harferion. Byddwn yn gofyn i

grwpiau amrywiol o fenywod ymwneud a chymryd rhan yn y gwaith hwn. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau ac yn adrodd ar gam cyntaf y gwaith hwn yn Haf 2018. Bydd yr adroddiad cam un hwnnw hefyd yn amlinellu cyfeiriad a gwaith pellach yn y dyfodol ar gyfer cam dau fel yr amlinellir isod.

### 3. Cam Un

#### **Pwrpas**

Pwrpas cam un yw:

- Adolygu'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud yng Nghymru a thynnu sylw at y meysydd hynny sy'n gweithio'n dda, a lle mae angen i ni wneud mwy. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar: sut caiff yr agenda bolisi ei phennu; sut y gwneir penderfyniadau a sut caiff cyllidebau eu pennu; ffyrdd o weithio ar draws y Llywodraeth gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar adnoddau Swyddfa'r Cabinet; ac ymddygiad.
- Mapio'r fframwaith polisi a deddfwriaethol presennol sy'n mynd i'r afael â chydaddoldeb rhywiol, gan nodi sut maent yn gweithredu a'r meysydd cyfrifoldeb - Adrannau Llywodraeth y DU, Adrannau Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol.
- Dechrau sgwrs genedlaethol ar sicrhau bod Cymru yn arweinydd bydeang ar gydraddoldeb rhywiol drwy gynnal dau ddigwyddiad rhanddeiliad (un yng Ngogledd Cymru, un yn Ne Cymru) yn ystod cam un. Bydd hyn yn adeiladu ar y blaenoriaethau a nodwyd gan randdeiliaid allweddol, ac yn cefnogi'r gwaith o nodi'r heriau i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru a dechrau casglu atebion ymarferol ac arloesol. Bydd yr ystod o sefydliadau sy'n gweithio gyda menywod ar draws y nodweddion gwarchodedig yn hanfodol yma a byddwn yn ceisio gweithio gyda nhw i sicrhau bod eu harbenigedd a lleisiau'r menywod y maent yn gweithio gyda nhw ac yn eu cynrychioli yn cael eu cyfleu a'u blaenoriaethu.
- Ymchwilio i'r arfer gorau gan Lywodraethau o bob cwr o'r byd a gwneud argymhellion i'w dadansoddi ymhellach i'r dulliau hyn a'u cymhwyso i Gymru.
- Ymgysylltu â'r broses pennu cyllidebau o fewn Llywodraeth Cymru i ddechrau nodi gwelliannau yng nghyswllt cydraddoldeb, gan gynnwys cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Ymchwilio i brosesau pennu cyllideb mewn Llywodraethau, sefydliadau a strwythurau eraill i nodi'r arferion gorau.
- Ystyried adolygiad o'r broses asesu effaith (sy'n digwydd yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd) i lywio cam dau.
- Cyflwyno argymhelliad at ddibenion cam dau ac aelodaeth o'r grŵp llywio ar gyfer cam dau.
- Cyflwyno argymhellion ar gyfer newidiadau tymor byr y gellir eu gwneud i bolisi, ymarfer neu agwedd at wella cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, ac argymhell cwmpas cam dau yr adolygiad.

## **Gweithredu**

Bydd Chwarae Teg yn cefnogi cam un a cham dau yr adolygiad. Yn ystod cam un, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith yr adolygiad. Mae'n hanfodol bod cefnogaeth o'r tu allan i'r Uned Cydraddoldebau yn ogystal ag y tu mewn iddi, os ydym am gyflawni uchelgais y Prif Weinidog o roi hwb newydd i'r gwaith hwn.

## **Amseru**

Bydd Cam 1 yn adrodd i Arweinydd y Tŷ erbyn mis Gorffennaf 2018.

## **4. Cam Dau**

Bydd cwmpas a methodoleg lawn cam dau yn cael eu diffinio yng ngham un.

## **Pwrpas**

- Pwrpas cam dau yr adolygiad yw sefydlu cynllun i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn y tymor canolig a'r hirdymor, gydag amcanion clir a thargedau mae modd eu mesur ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.
- Bydd cam dau hefyd yn cynnwys:
  - Dadansoddiad o isadeiledd a phrosesau Llywodraeth Cymru i asesu effeithiolrwydd ar gyfer datblygu a gweithredu polisi, yng nghyswllt rhywedd.
  - Dadansoddiad o gynaliadwyedd methodolegau ariannu ar gyfer cefnogi gwasanaethau sy'n cefnogi menywod ac yn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol;
  - Dadansoddiad o ddangosyddion cenedlaethol ac amcanion llesiant lleol i nodi'r bylchau mewn tystiolaeth, gweithredu ac atebolrwydd.
  - Dadansoddiad o sut mae polisi'n ymateb i anghenion menywod, sy'n rhai croestoriadol yn aml.
  - Dadansoddiad o lle mae gwasanaethau yn cefnogi menywod, a lle mae'r bylchau;
  - Gwerthusiad o brosesau pennu cyllideb i sicrhau dull cyfartal o ran rhywedd;
  - Cynhadledd cyfnewid gwybodaeth am gydraddoldeb rhywiol cenedlaethol a fydd yn clywed gan siaradwyr rhyngwladol ar ymchwil ac ymarfer y gellir eu cyflwyno yng Nghymru yn ogystal â chyfle i gymryd rhan ac ymgynghori â rhanddeiliaid.
  - Gwerthusiad o'r prosesau ymgynghori ar gyfer ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau ledled Cymru i sicrhau bod prosesau'r polisi yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru.
  - Gwneud argymhellion ar unrhyw fesurau deddfwriaethol neu fesurau eraill sydd eu hangen i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a chyflwyno'r cynllun

## **Gweithredu**

Yn ystod cam dau yr adolygiad, bydd grŵp llywio ar gydraddoldeb rhywiol yn cael ei sefydlu i oruchwylio a chraffu ar ddatblygiad y cynllun. Bydd yr argymhellion ar gyfer aelodau'r grŵp llywio yn cael eu gwneud yng ngham un, ond maent yn debygol o gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda menywod yng Nghymru.

Bydd cyfarfodydd y grŵp llywio yn cael eu cadeirio gan Arweinydd y Tŷ a'r Gweinidog Cydraddoldebau, ac fe'i gwasanaethir gan swyddogion Chwarae Teg a Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

## **Pa mor aml a phryd**

Bydd cyfarfodydd y Grŵp Llywio yn cael eu cynnal bob dau fis, a bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amlach yn electronig yn ôl yr angen. Bydd adroddiad ar gam dau yn cael ei gyflwyno erbyn mis Gorffennaf 2019.